

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Hosbis Skanda Vale

Dyddiad y gweithgarwch: 16 Chwefror
2022

Dyddiad cyhoeddi: 01 Ebrill 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Hosbis Skanda Vale fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Hosbis Skanda Vale yn elusen gofrestredig sy'n darparu gwasanaeth gofal lliniarol ar sail anghenion i oedolion sy'n byw gyda salwch sy'n cyfyngu ar fywyd. Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim i'r holl gleifion a'u teuluoedd. Mae'r hosbis wedi'i gofrestru i ddarparu gofal seibiant ar gyfer hyd at chwech o gleifion ac mae hefyd yn cynnig gwasanaethau gofal dydd.

Ym mis Mawrth 2020, cymerwyd penderfyniad i gau'r gwasanaeth yn sgil y pandemig COVID-19 gan Fwrdd Ymddiriedolwyr yr hosbis. Parhawyd i gynorthwyo cleifion presennol o bell dros y ffôn. Ehangwyd y cymorth hwn i gydwasanaeth newydd o bell, a gafodd ei lansio ym mis Medi 2021. Cafodd gwasanaethau gofal dyddiol yn yr hosbis eu hail-lansio ar 26 Ionawr 2022. Ar adeg y gwiriad ansawdd, roedd gwasanaethau gofal dydd yn cael eu darparu ar ddydd Mercher yn unig.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygu a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig a'r nyrs arwain ar ddydd Mercher 16 Chwefror 2022, a ddarparodd gwybodaeth a thystiolaeth i ni ynglŷn â'u gwasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r llwybrau ymholi allweddol canlynol:

- A yw'r perygl o heintiau'n cael ei asesu a'i reoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- Sut mae'r gwasanaeth yn nodi ac yn rheoli'n effeithiol achosion o COVID-19 / trosglwyddiad nosocomiaidd?
- A yw'r amgylchedd yn ddiogel ar gyfer y staff, y cleifion ac ymwelwyr?
- Sut mae'r gwasanaeth yn diwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?

-
- A yw'r trefniadau rheoli staff yn sicrhau bod nifer digonol o staff sydd wedi cael eu hyfforddi'n briodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol?
 - Sut mae rheolwyr yr hosbis yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull seiliedig ar hawliau yn cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?
 - Pa drefniadau sydd mewn grym i sicrhau bod trafodaeth a phenderfyniadau 'Na cheisier dadebru cardio-anadlol' yn cael eu gwneud yn briodol ac yn sensitif?

Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal i'w gadw mor ddiogel â phosib i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Asesiad risg amgylcheddol
- Asesiad risg iechyd a diogelwch cyffredinol

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Fel y soniwyd eisoes, roedd yr hosbis ar gau rhwng Mawrth 2020 a 26 Ionawr 2022, yn sgil y pandemig COVID-19, ac ar adeg y gwiriad ansawdd hwn roedd yn darparu gwasanaethau gofal dydd am un diwrnod o'r wythnos yn unig.

Fodd bynnag, canfuom fod y gwasanaeth wedi cynnal asesiadau risg angenrheidiol ac wedi diweddarau polisiâu a gweithdrefnau perthnasol i fodloni'r gofynion ychwanegol o ganlyniad i'r pandemig COVID-19 wrth i wasanaethau'r hosbis ailgychwyn.

Gwelsom fod asesiad risg iechyd a diogelwch cyffredinol wedi cael ei gynnal, ac roedd hwn yn cynnwys asesiadau o'r amgylchedd, cyfarpar, ac iechyd, diogelwch a llesiant staff a chleifion.

Darparwyd copi i ni o'r asesiad risgiau amgylcheddol dyddiedig Chwefror 2022. Gwelwyd bod hwn yn gynhwysfawr ac yn cwmpasu pob ardal a ddisgwyld.

Dywedwyd wrthym fod gan yr hosbis bolisi iechyd a diogelwch, asesiad risgiau tân, a gweithdrefn gadael mewn argyfwng ar waith. Dywedwyd wrthym hefyd fod trefniadau ar waith i sicrhau bod yr holl gyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw a'i wasanaethu'n rheolaidd yn unol â rheoliadau ac argymhellion y gwneuthurwr.

Dywedwyd wrthym hefyd fod yr hosbis wedi cael ei gynllunio'n benodol i ddarparu ystod o

leoedd lle mae modd i'r cleifion gael gofal wedi'i ddarparu'n breifat a chynnal sgysiau gyda staff ac aelodau teuluol yn breifat.

Roedd y gwasanaeth cyfyngedig a ddarparwyd adeg y gwiriad ansawdd hwn yn golygu bod lle digonol yn yr hosbis er mwyn cadw pellter cymdeithasol.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o heintiau, er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Polisiâu rheoli heintiau cyffredinol a pholisiâu penodol ynghylch COVID-19
- Gweithdrefn COVID-19
- Asesiad risg COVID-19
- Asesiad risg cyffredinol
- Polisi atal a rheoli heintiau
- Crynodeb archwilio mewnol o arolygiadau gweledol rheoli heintiau

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom fod polisiâu a gweithdrefnau rheoli ac atal heintiau cynhwysfawr ar waith wedi'u hategu gan asesiadau risg cadarn. Dywedwyd wrthym fod cofnod yn cael ei gynnal yn rhestru'r holl bolisiâu a gweithdrefnau a'u dyddiadau adolygu.

Dyweddodd y rheolwr cofrestredig wrthym, er mwyn diogelu staff a chleifion, fod unrhyw ymwelwyr neu gleifion sy'n dod i'r hosbis ar gyfer gofal dydd yn cael eu sgrinio ar gyfer symptomau COVID-19. Mae'r staff yn y gwasanaeth hefyd yn cwblhau profion llif unffordd COVID-19 rheolaidd.

Dyweddwyd wrthym fod arferion glanhau wedi cael eu cynyddu gyda sylw ychwanegol yn cael ei roi i ardaloedd y cyffwrdd ynddynt yn aml. Mae'r defnydd o gyfarpar diogelu personol wedi'i optimeiddio ac mae staff yn cael eu hatgoffa i sicrhau bod awyru naturiol da mewn ystafelloedd ble mae pobl yn preswyllo.

Dyweddwyd wrthym hefyd fod trefniadau arlwyo wedi cael eu haddasu er mwyn sicrhau bod dim ond un aelod o staff sydd yn ymwneud â'r broses paratoi bwyd er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut, yng ngoleuni effaith COVID-19, maent wedi addasu eu gwasanaeth. Gwnaethom archwilio a yw trefniadau rheoli yn sicrhau bod nifer digonol o staff sydd wedi cael eu hyfforddi'n briodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Adroddiad ar yr adolygiad strategol o'r gwasanaeth
- Canran y cyfraddau cwblhau cyfredol ar gyfer hyfforddiant gorfodol
- Gweithdrefn uwchgyfeirio triniaeth
- Crynodeb o adborth cleifion ar y cydwasanaeth o bell
- Ymateb y sefydliad i bolisi'r pandemig

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cynhaliwyd adolygiad strategol mewnol o'r gwasanaeth rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2020 a dynnodd sylw at sawl maes i'w wella. Roedd gwaith i fynd i'r afael â'r gwelliannau yn mynd rhagddo ar adeg y gwiriad ansawdd hwn. Ar ben hynny, mae'r adolygiad strategol wedi arwain at ddatblygu strategaeth wella pum mlynedd, gyda'r nod o alluogi'r hosbis i ddarparu gofal seibiant i gleifion mewnol 24 awr y dydd, saith niwrnod yr wythnos, drwy gydol y flwyddyn.

Yn bennaf, mae'r gwasanaeth yn cael ei arwain, ei reoli a'i gyflenwi gan wirfoddolwyr sy'n gweithio ochr yn ochr â phedwar aelod o staff allweddol a gyflogir. Mae gofal meddygol a goruchwyliaeth yn parhau'n gyfrifoldeb i feddygon teulu'r cleifion. Fodd bynnag, bydd arweinydd meddygol yr hosbis, sydd â'r brif rôl o roi cyngor a chymorth clinigol i gleifion a staff yn yr hosbis, yn cysylltu â meddygon teulu a gwasanaethau eraill, ar ran y cleifion, pan fydd angen.

Dywedwyd wrthym nad oedd swyddi gwag a bod digon o staff gyda'r profiad a chymwyseddau cywir, a gwirfoddolwyr, i ofalu am y nifer presennol o gleifion gofal dydd. Fodd bynnag, roedd ymgyrch recriwtio ar waith er mwyn galluogi strategaeth wella'r hosbis dros y tymor hwy.

Dywedwyd wrthym fod staff a gyflogwyd a gwirfoddolwyr yn cael eu recriwtio yn dilyn proses ffurfiol, gyda'r holl wiriadau cefndirol angenrheidiol yn cael eu gwneud. Mae'r broses recriwtio yn cael ei rheoli gan Dîm Pobl yr hosbis. Mae'r staff a gyflogir a'r gwirfoddolwyr yn cwblhau proses gynefino o dri mis sy'n cwmpasu hyfforddiant gorfodol mewn pynciau fel diogelwch tân, symud a thrin, atal a rheoli heintiau, iechyd a diogelwch, diogelu, ac ymwybyddiaeth COVID-19. Mae hyfforddiant ychwanegol penodol i'r rôl yn cael ei ddarparu hefyd.

Dywedwyd wrthym y rhoddir disgrifiadau swydd/rôl ffurfiol i'r staff a gwirfoddolwyr.

Gwnaeth trafodaethau gyda'r rheolwr cofrestredig a'r nyrs arwain dynnu sylw at ddealltwriaeth

dda o'u cyfrifoldebau priodol a phrosesau adrodd ac uwchgyfeirio'r hosbis. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei fod yn cael ei gefnogi'n dda gan yr unigolyn cyfrifol a'r Bwrdd Ymddiriedolwyr.

Dywedwyd wrthym fod systemau wedi cael eu cyflwyno i ddarparu cefnogaeth ychwanegol i'r staff yn ystod y pandemig COVID-19 fel seicotherapi, cwnsela, a thrafodaethau ffôn/fideo-gynadledda gyda aelodau o'r tîm rheoli. Mae'r cyfryngau cymdeithasol hefyd wedi cael eu defnyddio fel ffordd o ddarparu cefnogaeth ychwanegol a chyfathrebu parhaus â'r staff. Yn ychwanegol, mae gan yr hosbis adran cyfathrebu sy'n cynhyrchu cylchlythyr er mwyn cadw pobl yn hysbys am ddatblygiadau o fewn y gwasanaeth.

Dywedwyd wrthym fod staff a gwirfoddolwyr yn cael eu cefnogi'n ddyddiol gan eu harweinwyr a phenaethiaid adran penodol, gan ddibynnu ar eu rôl. Yn ogystal â'r gefnogaeth fwy anffurfiol o ddydd i ddydd, dywedwyd wrthym fod adolygiadau arfarnu perfformiad a datblygiad ar gyfer staff a gwirfoddolwyr yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Gwnaethom ganfod bod prosesau ar waith i reoli ac adrodd am unrhyw ddamweiniau, digwyddiadau neu faterion diogelu Adroddir am ddigwyddiadau o'r fath i fyny'r llif rheoli trwy'r Rheolwr Sicrhau Ansawdd i'r Pwyllgor Cyflawni Gweithredol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Bwrdd Ymddiriedolwyr. Dywedwyd wrthym fod dysgu yn sgil digwyddiadau yn cael ei rannu'n ffurfiol gyda staff.

Dywedwyd wrthym fod polisiau preifatrwydd, urddas, cyfrinachedd, cydsyniad a chyfle cyfartal ar waith.

Dywedwyd wrthym fod ymdrechion yn cael eu gwneud i wella mynediad dwyieithog (Cymraeg/Saesneg) at y gwasanaeth. Dywedwyd wrthym hefyd fod cyfieithwyr gwirfoddol ar gael ar gyfer pobl sy'n dymuno cyfathrebu yn Gymraeg.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad cryno ar y gwiriad ansawdd fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.